Rhifyn 3, Tachwedd 2022

Cylchgrawn Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

# yr Athro

# Balot!

## Beth sydd wedi Digwydd Hyd Yma…

**CYFLOG GWELL! HAEDDU GWELL!**

- Gorffennaf 2022 – Llywodraeth Cymru yn cynnig codiad cyflog o 5% i athrawon. Cyfradd chwyddiant 9.4% bryd hynny ac wedi codi ers hynny i 10.1% ac fe all godi eto
- Medi 2022 – aelodau UCAC yn derbyn holiadur ac yn cael cyfle i fynegi barn am y sefyllfa
- 6 Hydref 2022 – Cyngor Cenedlaethol UCAC yn cyfarfod ac yn penderfynu bwrw ati i gynnal balot swyddogol i ofyn barn aelodau ynghylch gweithredu'n ddiwydiannol
- 8 Hydref 2022 – UCAC yn cyhoeddi Datganiad i'r Wasg ynghylch y balot
- 13 Hydref 2022 – Llythyr oddi wrth Weinidog y Gymraeg ac Addysg, Jeremy Miles, yn ymateb i benderfyniad yr undebau i gynnal balot ynghylch gweithredu'n ddiwydiannol
- Yn ystod mis Hydref – Aelodau UCAC sy'n gymwys i bleidleisio yn derbyn e-bost i gadarnhau manylion cyswllt (cyfeiriad, lleoliad gwaith ayb)
- Hydref – Swyddogion Maes yn cynnal cyfarfodydd ac yn rhoi cyfle i aelodau drafod amryw faterion, gan gynnwys y bleidlais



**Rydym yn gofyn am gael 'CYFLOG GWELL' am fod athrawon yn 'HAEDDU GWELL'…**

t2 Haeddu Gwell t3 Cwestiynau t4 Ymateb i Covid t5 Rhai digwyddiadau

# Gwell Cyflog

Mae UCAC yn galw am godiad cyflog nad yw'n is na'r gyfradd chwyddiant, sydd erbyn hyn yn 10.1% Mae costau popeth wedi codi ar y raddfa uchaf ers dros ddeugain mlynedd ac mae'r cynnydd ym mhrisiau bwydydd sylfaenol wedi codi dipyn mwy na'r gyfradd chwyddiant, cynnydd o dros 50% mewn rhai achosion. Yn ôl ystadegau a gyhoeddwyd gan ONS ar 25 Hydref, gwelwyd cynnydd o 65% ym mhris olew llysiau, cynnydd o 60% ym mhris pasta a 46% o gynnydd ym mhris te.[1] Rydym hefyd yn wynebu cynnydd anferthol ym mhris tanwydd – petrol a diesel ar gyfer ein cerbydau, nwy, olew a thrydan i wresogi ein cartrefi. Yn sgil cynnydd mewn cyfraddau llog, mae morgeisi hefyd wedi codi'n sylweddol. Felly, byddai cael codiad cyflog o 5%, mewn gwirionedd ac mewn termau real, yn golygu colled o ran cyflog. Nid ydym o'r farn fod hyn yn deg, yn wir rydym yn teimlo'n gryf ein bod yn **Haeddu Gwell**.

# Haeddu Gwell

Pwy sy'n dweud bod athrawon yn **haeddu gwell** ac ar ba sail? Ai athrawon eu hunain sydd yn dweud hyn? Mae'n werth cofio beth mae pobl eraill wedi ei ddweud am proffesiwn yn ystod y cyfnod diweddar. Mae\r Gweinidog Addysg wedi sôn am 'y gwaith aruthrol y maent [h.y. athrawon] wedi ei wneud dros y blynyddoedd diwethaf' ac wedi cyfeirio at yr 'hyblygrwydd a gwydnwch eithriadol' a ddangoswyd gan athrawon. Mae pobl y tu allan i'r proffesiwn wedi dweud, 'Mae nifer wedi gweld pa mor werthfawr yw cyfraniad athrawon ers i'r plant gael eu haddysgu adref yn ystod y pandemig.'

Yn ystod y blynyddoedd nesaf hefyd, mae galw ar athrawon i sicrhau bod 'y newid mwyaf i addysg ers degawdau', h.y. y Cwricwlwm i Gymru, yn cael ei roi ar waith. Bydd pob sector sy'n ymwneud ag addysg orfodol (3-16 oed) yn wynebu newidiadau enfawr o ran cynllunio, paratoi, addysgu ac asesu. Mae newidiadau mawr hefyd yn y trefniadau o ran Anghenion Dysgu Ychwanegol, yn sgil deddfwriaeth newydd yn y maes.

Nid yn unig mae cwricwlwm newydd, deddfau a threfniadau newydd ond hefyd yn sgil Covid mae athrawon wedi gorfod ymdopi â heriau ychwanegol, gan gynnwys heriau o ran lles disgyblion, ymddygiad, sgiliau yn y Gymraeg.

Mae'r gofynion ar athrawon wedi cynyddu'n fawr yn ddiweddar. Mae mwy a mwy o athrawon yn gwegian o dan y pwysau ychwanegol hyn ac yn teimlo nad oes cydbwysedd bywyd/gwaith rhesymol ganddynt. Mae 'llwyth gwaith' yn fater y mae athrawon yn cyfeirio ato'n aml fel rhywbeth sy'n eu poeni am y proffesiwn.

Yn wyneb yr holl newidiadau a'r heriau, nid yw'n hawdd recriwtio i swyddi ac mae nifer o athrawon yn sôn am adael y proffesiwn.

Pa syndod yn wyneb hyn i gyd, bod athrawon yn galw **'Cyflog Gwell! Haeddu Gwell!'**.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Yn dilyn ymateb undebau a'r siom a fynegwyd ynghylch cynnig Llywodraeth Cymru (codiad cyflog o 5%) i athrawon Cymru, mae Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, Jeremy Miles, yn datgan ei bod yn 'gwbl resymol' i athrawon ddisgwyl codiad cyflog yn unol â chwyddiant ac mae'n dweud ei fod yn 'deall y dicter a'r siom' sy'n cael ei deimlo. Diffyg cyllid o du Llywodraeth San Steffan yw'r rheswm y mae e'n ei roi dros beidio â chynnig mwy na 5% o godiad cyflog i athrawon. Gellir gweld y llythyr yn llawn drwy ddilyn y ddolen ganlynol: Llythyr wrth Gweinidog y Gymraeg ac addysg i'r undebau, 13 Hydref 2022 | LLYW.CYMRU


## Bwrdd Golygyddol

**Llywydd Cenedlaethol:** Heulwen Howells

**Is-Lywydd:** Geraint Phillips

**Ysgrifennydd Cyffredinol:** Ioan Rhys Jones

**Is-ysgrifennydd Cyffredinol:** Mererid Lewis Davies

**Cydlynydd Yr Athro:** Iona Davies

**Nid yw cynnwys Yr Athro o angenrheidrwydd yn farn swyddogol UCAC.**

Nid yw cynnwys Yr Athro o angenrheidrwydd yn farn swyddogol UCAC. Os hoffech gyfrannu at y cylchgrawn hwn, mae croeso i chi anfon unrhyw syniadau neu erthyglau at: ucac@ucac.cymru

Croesewir hefyd unrhyw awgrymiadau, syniadau neu sylwadau am *Yr Athro*.


[1] Tracking the price of the lowest-cost grocery items, UK, experimental analysis - Office for National Statistics (ons.gov.uk)

# Y Balot – Rhai Cwestiynau

1. **Pwy sydd yn gymwys i bleidleisio?**
   Unrhyw athro sydd yn cael ei gyflogi gan ysgol yn unol â'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Gwaith. Bydd rhai athrawon eraill yn ogystal, ee y rhai sydd yn gweithio'n uniongyrchol i awdurdod mewn gwasanaethau amrywiol, cyn belled â'u bod yn cael eu cyflogi yn unol â'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Gwaith.

   Nid yw'r rheiny sydd dan hyfforddiant yn gymwys i bleidleisio, oni bai eu bod yn cael eu cyflogi fel athrawon sydd heb gymhwyso, yn unol â'r Ddogfen.

2. **Beth fydd y drefn o ran pleidleisio?**
   Byddwch yn derbyn papur balot drwy'r post, a bydd gofyn i chi ddefnyddio'r amlen wedi ei chyfeirio fydd wedi ei chynnwys yn y pecyn i'w yrru yn ôl.

   Bydd y papur balot ei hun yn ddwyieithog, hynny er mwyn diwallu anghenion technegol a chyfreithiol. Fodd bynnag, yn y Gymraeg y byddwch yn derbyn unrhyw ohebiaeth arall.

3. **Beth fydd y cwestiwn ar y papur balot?**
   Un cwestiwn fydd ar y balot yn gofyn a ydych yn fodlon mynd ar streic.

4. **Beth yw cyd-destun unrhyw streicio?**
   Yn swyddogol, mae athrawon yn cael eu cyflogi gan eu hysgolion a'r awdurdod, felly dyna pam fod y papur balot yn cyfeirio atynt a gyda hwy y byddwn yn mynd i anghydfod.

   Fodd bynnag, fel y gwyddoch, y Llywodraeth sydd yn penderfynu ar godiadau cyflog ac yn gyfrifol am amodau gwaith athrawon. Byddwch wedi darllen bod y Gweinidog Addysg yn gefnogol i ofynion athrawon, ond nad oes cyllid digonol i sicrhau codiad cyflog teg ac i sicrhau gwell amodau a lleihau llwyth gwaith. Dadl y Llywodraeth yw nad oes digon o gyllid yn cyrraedd Cymru o San Steffan a bod hynny'n achosi sefyllfa ariannol anodd iawn yng Nghymru.

5. **Beth fydd natur unrhyw weithredu diwydiannol?**
   Fe fyddwch yn gweld bod y papur balot yn cyfeirio at y ffaith mai streic fylchog sydd dan sylw. Golygai hyn fod 'bylchau' rhwng y diwrnodau gweithredu ac mai dyddiau penodol o streic fydd, yn hytrach na streic ddi-derfyn fyddai'n golygu bod streic barhaol.

   Os yw canlyniad y balot yn glir, bydd y Cyngor Cenedlaethol wedyn yn penderfynu ar ddyddiad(au) streic posibl. Byddwn yn rhoi rhybudd o 14 diwrnod i chi a'ch cyflogwr o ddyddiad unrhyw streic. Yn amlwg, bydd y Cyngor yn ystyried barn yr aelodaeth os am benderfynu cynnal mwy nag un diwrnod o streic. Bydd rhaid i unrhyw streic ddigwydd o fewn 6 mis.

6. **A fydd UCAC yn cydweithredu gydag undebau eraill o ran dyddiad(au) streic?**
   O'r hyn yr ydym wedi ei glywed gan aelodau hyd yn hyn, mae'n amlwg fod dymuniad i gydweithio ag undebau eraill o ran diwrnodau streic. Mae UCAC wedi bod mewn cyswllt gydag undebau eraill i geisio cydweithio, ond yn anffodus, anodd yw derbyn atebion ganddynt yma yng Nghymru gan fod gofynion yr undebau eraill yng Nghymru yn eilradd i ofynion Lloegr. Fodd bynnag, mae'n annhebyg y bydd y mwyafrif o undebau yn gallu gweithredu cyn mis Chwefror, a'r gobaith yw y gallwn wedyn drafod i bennu dyddiad.

7. **Beth yw oblygiadau streicio o ran eich cyflogaeth?**
   Nid yw streicio yn golygu toriad mewn cytundeb – cyn belled ag y bo undeb ac aelodau'n streicio yn unol â'r gyfraith.

   Fodd bynnag, mae pawb sydd yn streicio yn colli diwrnod o gyflog am bob diwrnod maent yn streicio. Yn yr un modd, ni fydd unrhyw gyfraniad gan yr aelod na'r cyflogwr tuag at bensiwn am y diwrnod hynny.

# Beth sy'n Digwydd Nesaf?

21 Tachwedd – 12 Ionawr – cyfnod pleidleisio

12 Ionawr – gwnewch yn siŵr eich bod wedi dychwelyd eich pleidlais erbyn y dyddiad hwn

Canol mis Ionawr – cyhoeddi canlyniad y bleidlais

BETH I'W DDISGWYL

Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i'r bleidlais gael ei gweinyddu gan oruchwyliwr allanol, felly bydd y balot yn cael ei weinyddu gan wasanaethau etholiadol Civica.

**Bydd y papur pleidleisio yn cael ei anfon drwy'r post i'ch cyfeiriad cartref.**

**EICH UNDEB…EICH CYFLE… EICH LLAIS**

**Cofiwch fod yn rhaid i 50% o'r rhai sy'n gymwys i bleidleisio fwrw pleidlais er mwyn i'r bleidlais fod yn ddilys. Beth bynnag yw eich barn – mae'n bwysig eich bod yn pleidleisio.**

Beth yw'r farn ymhlith athrawon? Dyma ddetholiad o sylwadau a wnaed yn sgil yr amgylchiadau presennol.

- Mae'r sefyllfa bresennol yn anodd – y gwaith yn cynyddu a'r arian yn lleihau
- Mae sefyllfa ariannol ysgolion yn argyfyngus
- Mae bywyd athro yn anodd – rwy'n deall yn iawn pam fod pobl yn gadael y proffesiwn
- Nid yw'r penderfyniad i fynd ar streic yn benderfyniad i'w wneud ar chwarae bach, ond mae'n rhaid gwneud rhywbeth oherwydd y sefyllfa bresennol
- Os ydyn ni am ddenu pobl i'r proffesiwn, mae'n rhaid i athrawon gael eu talu'n well
- Mae'n bwysig bod cyflog athrawon yn adlewyrchu faint o waith y mae'n rhaid iddyn nhw ei wneud
- Gallai streicio olygu mwy o bwysau ariannol arnom
- Mae pethau wedi mynd o ddrwg i waeth yn dilyn y pandemig
- Mae'n bwysig ein bod yn ystyried lles ein disgyblion
- Wrth i chwyddiant gynyddu, mae cyflogau athrawon wedi gostwng
- A fydd streicio yn niweidio agwedd y cyhoedd at athrawon?
- Mae'n bwysig ein bod yn brwydro am gyflog teg i athrawon
- Mae mwy a mwy o waith yn cael ei roi ar athrawon sy'n golygu eu bod yn gorfod gweithio oriau hir iawn, gan gynnwys gyda'r nos ac yn ystod y penwythnos

# Ymateb i Sefyllfa yn Sgil Covid

**YMDDYGIAD DISGYBLION – SGWRS GYDA'R DOCTOR LLINOS JONES, PENNAETH YSGOL BRO MYRDDIN**

Yr un yw'r neges ledled y wlad ac yn wir y tu hwnt – mae ymddygiad disgyblion wedi gwaethygu yn dilyn y cyfnodau clo ac mae'n siŵr bod gan bob athro ac athrawes hanesion a straeon i gadarnhau hynny. Mae Ysgol Bro Myrddin, ynghyd â'r un ar ddeg ysgol uwchradd arall yn Sir Gâr, yn cydweithio gyda'r sir i fynd i'r afael â'r mater hwn. Lansiwyd ymgyrch ar y cyd ym mis Medi ac mae'r ymgyrch hon yn un barhaus a chyson. Yn dilyn y gwasanaeth cychwynnol a'r adnoddau a gyflwynwyd ym mis Medi, bydd adnoddau ychwanegol yn cael eu cyflwyno ddechrau mis Tachwedd ar ôl gwyliau hanner tymor.

Ym mis Gorffennaf 2022, cynhaliwyd cyfarfod gyda grŵp ffocws o bob ysgol a lluniwyd fideo a deunyddiau hyrwyddo eraill yn pwysleisio beth yw effaith camymddygiad ar eraill. 'Mae ymddygiad un yn effeithio ar bawb' yw'r neges sy'n cael ei chyfleu mewn gwasanaethau, ar y cyfryngau cymdeithasol, mewn baneri ar goridorau ac mewn llythyron at rieni.

'Mewn undeb mae nerth' ac mae'r ffaith bod pob ysgol uwchradd yn y sir yn cyfleu'r un neges yn grymuso'r neges. Ffactor arall bwysig sy'n cyfrannu at lwyddiant y fenter hon yw'r ffaith bod y sir wedi sicrhau bod cyllid ar gael i gyflogi Swyddog Cynhwysiant ym mhob ysgol uwchradd yn Sir Gâr. Mae'r swyddogion hyn yn derbyn hyfforddiant ar y cyd ac felly'n gallu rhannu a chyd-drafod.

Mae hon yn ymgyrch bwysig sy'n dangos sut y gall ysgolion weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â phroblemau cyffredin. Nid gwendid yw cyfaddef ac amlygu problemau mewn ysgol – yn wir, anaml iawn y mae problem wedi ei neilltuo i un ysgol yn unig. Rydym yn wynebu problemau recriwtio i'r proffesiwn ac mae mynd i'r afael â phroblemau ymddygiad yn elfen bwysig wrth geisio sicrhau ein bod yn denu athrawon newydd i'r proffesiwn a hefyd yn atal athrawon presennol rhag rhoi'r gorau i weithio yn ein hysgolion.

# Dewch â gwên i'r byd mewn siwmper glyd

Achub y Plant
DIWRNOD SIWMPER NADOLIG

O jyrsis sy'n janglo i siwmperi sy'n sgleinio mae Achub y Plant yn gobeithio bydd ysgolion ar draws Cymru yn ymuno yn hwyl Diwrnod Siwmper Nadolig Achub y Plant a gynhelir eleni ar **ddydd Iau, 8fed Rhagfyr**.

Nod Diwrnod Siwmper Nadolig yw codi arian ar gyfer cefnogi gwaith yr elusen yn rhyngwladol a hefyd yma yng Nghymru. Ers cyflwyno Diwrnod Siwmper Nadolig am y tro cyntaf yn 2012 mae wedi codi swm o £30 miliwn ac eleni bydd Llywodraeth y DU yn cyfateb cyfraniadau punt-am-bunt hyd at gyfanswm o £2 filiwn drwy'r cynllun UK Aid Match.

Gyda'r oll sy'n digwydd ar draws y byd o ganlyniad i newid hinsawdd a thlodi a'r ffaith bod yr argyfwng costau byw yn peri cymaint o ansicrwydd i deuluoedd yma yng Nghymru, y neges yw i ailgylchu ac ail-greu yn hytrach na phrynu siwmper o'r newydd. Beth am annog y plant i ddod â hen siwmperi i mewn i'r ysgol y gallen nhw eu haddurno eu hunain yn y dosbarth? Neu beth am fynd ati i feddwl am weithgarwch codi arian fel 'Addurno'r Athro' neu sêl gacennau a mins peis.

**Adnoddau Cymraeg ar gael i ysgolion**

Cofrestrwch i gymryd rhan ar **www.christmasjumperday.org** ac unwaith i chi wneud hynny chwiliwch am y ddolen sy'n cynnwys yr adnoddau Cymraeg sy'n cynnwys pecyn yn llawn



syniadau ar gyfer gweithgareddau creadigol i sicrhau y bydd eich Diwrnod Siwmper Nadolig yn llwyddiant. Bydd yr adnoddau Cymraeg ar gael ar y wefan o ganol Tachwedd neu cysylltwch gydag Eurgain Haf ar e.haf@savethechildren.org.uk am gopïau. Gallwch ddilyn Achub y Plant ar ar Twitter @savechildrencym a Facebook @savethechildrenwales a chofiwch rannu eich lluniau gyda'r elusen drwy ddefnyddio #diwrnodsiwmpernadolig.

Am fwy o wybodaeth am waith Achub y Plant yng Nghymru: our_work_in_wales_cymraeg.pdf (savethechildren.org.uk)

---

# Dweud eich Dweud

Mae hi'n gyfnod o ymgynghori ynghylch y TGAU newydd fydd yn cael eu cyflwyno i gyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru. Mae Cymwysterau Cymru wedi bod yn cynnal gweminarau yn rhoi gwybodaeth am y cymwysterau TGAU Newydd (i'w cyflwyno ym Medi 2025 a'u harholi yn Haf 2027). Gellir gweld y gweminarau hyn a darllen am y cynigion drwy ddilyn y ddolen ganlynol https://www.cymwysteraucymru.org/cymraeg/cymwys-ar-gyfer-y-dyfodol---dweud-eich-dweud/dweud-eich-dweud/

Cofiwch fod cyfle i chi ddweud eich barn rhwng nawr a 14 Rhagfyr. Bydd UCAC yn ymateb hefyd, felly os hoffech i ni gynnwys rhywbeth penodol yn ein hymateb, cysylltwch â ni. Anfonwch e-bost gyda'ch sylwadau at iona@ucac.cymru

CYMWYS AR GYFER Y DYFODOL

**Ymgyngoriadau eraill gan Lywodraeth Cymru**

Gwisg ysgol - newidiadau i'r canllawiau statudol ar bolisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion – ymateb erbyn 28 Tachwedd.

Yn yr un modd, os oes gennych farn ynghylch yr uchod mae croeso i chi ymateb neu gallwch anfon eich sylwadau atom ni, gan y bydd UCAC yn ymateb i'r ymgynghoriad.